Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

24 Tachwedd 2016

Annwyl Aelod Cynulliad,

Ar 16 a 17 Tachwedd, cyfarfu'r Bwrdd Taliadau i drafod ei strategaeth ar gyfer y Pumed Cynulliad wrth baratoi ar gyfer datblygu Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Yn ogystal â hyn, ystyriwyd materion yn ymwneud â'r Gwariant ar Lety Preswyl a materion a godwyd gyda'r adran Cymorth Busnes i'r Aelodau.

**Gwariant ar Lety Preswyl**

Ystyriwyd y mater o Wariant ar Lety Preswyl a'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar p'un ai i ddiwygio'r Penderfyniad, fel bod Aelodau y mae eu prif gartref y tu allan i Gymru yn gymwys ar gyfer gwariant ar lety preswyl.

Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006, nac unrhyw ddeddfwriaeth na chyfraith gyffredin arall sy'n llywodraethu etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr cymwys ar gyfer bod yn Aelod o'r Cynulliad fyw yng Nghymru.

Wrth wneud ein penderfyniad, felly, cawsom ein harwain yn bennaf gan ein cylch gwaith a'n dyletswyddau o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, i sicrhau nad oes yr un Aelod yn cael ei rwystro rhag ymgymryd â'r rôl y mae wedi'i ethol i'w gwneud drwy roi system cymorth ariannol ar waith sy'n ei alluogi i gyflawni ei waith yn effeithiol.

Ar hyn o bryd, mae'r Penderfyniad yn nodi'r rheolau ar gyfer taliadau i ad-dalu'r Aelodau am y treuliau ychwanegol sy'n codi'n anorfod pan fyddant yn aros dros nos yng Nghaerdydd wrth ymgymryd â'u gwaith fel Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Penderfyniad yn darparu ar gyfer Aelodau y mae eu prif gartref yng Nghymru, ac nid yw'n gwneud darpariaeth i gefnogi Aelodau y mae eu prif gartref y tu allan i Gymru.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6331
E-bost/Email: Taliadau@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cafodd y Bwrdd Taliadau 41 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a nododd fod gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig gan y Bwrdd i ddiwygio'r Penderfyniad. Mae'r ymatebion hyn wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd. Roedd llawer o'r ymatebion yn dadlau y dylai Aelodau'r Cynulliad, fel mater o egwyddor, fyw o fewn ffin Cymru, os yn bosibl o fewn yr etholaeth y maent yn ei chynrychioli.

Gall fod yn ddymunol, neu beidio, y dylai cymhwyster i sefyll i fod yn Aelod o'r Cynulliad fod yn ddibynnol ar breswylio yng Nghymru, neu yn wir yn y rhan honno o Gymru y mae'r AC yn ei chynrychioli. Nid ydym yn mynegi safbwynt yn hyn o beth. Mae'n fater i'r ddeddfwrfa osod gofynion cymhwyster i ymgeiswyr fod yn Aelodau Cynulliad, ac yn fater o farn ar gyfer pleidleiswyr i benderfynu pwy i'w ethol. Nid yw'n fater y mae gan y Bwrdd awdurdod drosto. Mae ein swyddogaethau ni wedi'u cyfyngu i bennu lwfansau rhesymol ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu hethol.

Gan gymryd i ystyriaeth farn y mwyafrif o bobl a fu'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, daethom i'r casgliad na fyddem yn newid y Penderfyniad. Rydym wedi penderfynu arfer ein disgresiwn i ymdrin ag amgylchiadau eithriadol Aelod y mae ei brif gartref y tu allan i Gymru ar sail achosion unigol, drwy dalu unrhyw dreuliau sy'n codi o reidrwydd mewn cysylltiad â chyflawni ei rôl fel Aelod. Byddwn yn parhau ag unrhyw drefniadau dros dro a roddwyd ar waith nes ein penderfyniad ar yr ymgynghoriad. Byddwn yn ad-dalu costau llety mewn gwesty, sy'n codi o reidrwydd mewn cysylltiad â dyletswyddau yn y Cynulliad yng Nghaerdydd. Mae'r trefniadau hyn wedi bod yn gweithio'n foddhaol hyd yma. Rhoddwyd rheolaethau da ar waith i sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn rhesymol ac yn darparu gwerth am arian.

Mae cyflwyno cymhwyster preswylio ar gyfer Aelodau, yn amlwg, yn fater gwleidyddol sensitif, ac yn benderfyniad ar gyfer deddfwyr. Nodwn fod hwn yn fater byw ac mae newidiadau yn cael eu hystyried gan Dŷ'r Arglwyddi yn ystod gwaith craffu ar y Mesur Cymru, a byddwn yn dilyn y trafodion hyn yn frwd.

## Ein strategaeth ar gyfer darparu Penderfyniad addas ar gyfer y Chweched Cynulliad

Yn ein cyfarfod strategaeth ym Mae Colwyn ym mis Medi, cytunwyd i ddatblygu dogfen strategaeth a fyddai'n nodi ein prif amcanion a'n blaenoriaethau strategol ar gyfer y Pumed Cynulliad, wrth baratoi ar gyfer datblygu Penderfyniad a fyddai'n addas ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Yr wythnos diwethaf, cytunwyd ar ein dogfen strategaeth ddrafft, y byddwn yn ei chyhoeddi cyn bo hir. Rydym yn cyhoeddi ein strategaeth ar ddechrau'r Pumed Cynulliad er mwyn bod yn dryloyw ynghylch ein gwaith, ac i hwyluso

trafodaeth gynhyrchiol gydag Aelodau a phobl eraill sy’n cymryd diddordeb yn ein gwaith, a gallu democratiaeth Cymru yn y dyfodol.

**Materion sy’n codi wrth gymhwyso’r Penderfyniad**

Ystyriodd y Bwrdd nifer o faterion sydd wedi codi wrth gymhwyso’r Penderfyniad ers dechrau tymor yr hydref y Cynulliad. Bydd y materion hyn yn llywio ein trafodaethau strategol ar gyfer creu Penderfyniad addas ar gyfer y Chweched Cynulliad.

**Gwaith yn y dyfodol**

Yn ein cyfarfod, buom yn cwmpasu darnau o waith ar gyfer y dyfodol a fydd yn llywio ein ffordd o feddwl am weddill ein cylch gwaith.

Un o’n blaenoriaethau uniongyrchol yw i gael dealltwriaeth o agweddau a allai rwystro unigolion rhag sefyll i gael eu hethol i’r Cynulliad, ac agweddau sy’n denu pobl i’r swydd. Felly byddwn yn gwneud gwaith ymchwil i edrych ar y cymhellion a’r rhwystrau ar gyfer unrhyw un sydd â’r sgiliau a’r diddordeb priodol i ymgeisio i gael eu hethol i’r Cynulliad.

Yn unol â’n hymrwymiad i adolygu perfformiad y Bwrdd ac effaith ein penderfyniadau’n gyson, byddwn yn cynnal adolygiadau o ran y darpariaethau presennol a gafodd eu cynnwys yn y Penderfyniad gyfer y Pumed Cynulliad ac yn holi a yw’r egwyddorion sy’n bodoli eisoes, sy’n sail i’r Penderfyniad, yn addas i’r diben.

Caiff yr adolygiadau hyn eu cynnal drwy 2017, a byddant yn llywio ein penderfyniadau o ran y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Byddwn yn dechrau ar y gwaith hwn yn y Flwyddyn Newydd, a bydd yn sicrhau bod yr Aelodau, eu staff cymorth a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gwbl ymwybodol o’n cynnydd, ac yn cymryd rhan ar adegau allweddol.

Rydym yn parhau i gwrdd â llawer ohonoch yn anffurfiol, a gobeithio y byddwn yn bresennol yng nghyfarfodydd grŵp eich plaid. Rydym ar ganol y broses o drefnu cyfarfod o Grŵp Cynrychiolwyr Aelodau Cynulliad a Staff Cymorth, a gaiff ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd gobeithio.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer arferol.

Os hoffech drafod y mater hwn gyda mi, neu gydag un o fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy’r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau

**Y Fonesig Dawn Primarolo**
**Cadeirydd**
**Bwrdd Taliadau/Remuneration Board**